

Hawdd ei ddeall



Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast
National Park

Ein cynllun ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro 2015-2031



Fersiwn hawdd ei ddeall o **Strategaeth Well o Gynllun Datblygu Lleol**
(Fersiwn Newydd) **Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro 2015-31**
(Crynodeb)

April 2017



Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.

Efallai na fedrwch chi ddarllen a deall y ddogfen hon heb help. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Efallai bydd rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain wedi cael eu hysgrifennu mewn **glas trwm** a dywedir beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.

Os bydd unrhyw un o'r geiriau yn cael eu defnyddio eto yn y llyfryn byddan nhw'n cael eu dangos mewn **ysgrifennu glas cyffredin**. Os gwelwch chi eiriau mewn **ysgrifennu glas cyffredin**, gallwch edrych beth maen nhw'n feddwl mewn **Geiriau anodd** ar dudalen 12.



Pan fydd y ddogfen yn dweud 'ni', mae hyn yn meddwl Awdurdod **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**.

Gallwch gael mwy o gopïau o'r ddogfen hon o:

Polisi Cynllunio
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Parc Llanion
Doc Penfro
Sir Benfro
SA72 6DY

E-bost: devplans@pembrokeshirecoast.org.uk

Ffôn: 01646 624800

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan Anabledd Dysgu Cymru gan ddefnyddio Photosymbols.



Cynnwys

Page

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon.....	2
Am beth mae hyn yn sôn?.....	5
Ein cynllun ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro.....	7
Busnesau newydd.....	8
Cartrefi newydd.....	8
Newid hinsawdd.....	9
Trefi a phentrefi.....	9
Cefngwlad.....	10
Gwasanaethau i'r gymuned.....	10
Twristiaid.....	11
Cludiant.....	11
Geiriau anodd.....	12





Am beth mae hyn yn sôn?

Ni yw Awdurdod **Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro**. Ein gwaith yw gofalu am y **Parc Cenedlaethol**.



Mae **Parc Cenedlaethol** yn ardal sy'n cael ei diogelu oherwydd ei chefn gwlad hardd, ei bywyd gwyllt a'i hanes.



Fersiwn byr yw hwn o'r cynllun sydd gennym ar gyfer gofalu am y **Parc Cenedlaethol**. Bydd y cynllun hwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn defnyddio'r tir mewn ffordd dda yn y **Parc Cenedlaethol**. Mae'r cynllun yn dweud sut y byddwn ni'n:



- gwneud yn siŵr bod cynlluniau'r llywodraeth ar gyfer **Parciau Cenedlaethol** yn cael eu dilyn



- delio â'r ffordd y mae **newid hinsawdd** yn effeithio ar y **Parc Cenedlaethol**

Newid hinsawdd yw'r ffordd y mae tywydd y Ddaear yn newid.



- dod o hyd i'r ffordd iawn o ofalu am gefn gwlad a'r traethau




- dod o hyd i'r ffordd iawn o ofalu am gefn gwlad a'r traethau



- delio â'r angen am gartrefi y gall pobl eu fforddio



- gofalu am drefi lleol a'u gwella.



Byddwn yn dweud ble **byddwn** ni'n caniatáu i adeiladau newydd gael eu hadeiladu a ble **na** fyddwn ni'n caniatáu i adeiladau newydd gael eu hadeiladu.



Fe fyddwn ni'n defnyddio'r cynllun pan fyddwn ni'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â **cheisiadau cynllunio** yn y **Parc Cenedlaethol**.

Mae **cais cynllunio** yn ffordd o ofyn caniatâd i adeiladu rhywbeth newydd neu ychwanegu rhywbeth at adeilad.

Ein cynllun ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro



Mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i ni:



- gadw'r [Parc Cenedlaethol](#) fel lle naturiol bywyd gwylt, hanes a harddwch



- rhoi cyfle i bawb ymweld ag ef a'i fwynhau



Mae'r bobl sy'n byw yma angen gwaith a bywyd cymdeithasol. Mae'n rhaid i ni wneud beth y gallwn ni i'w cefnogi.



Mae'r [Parc Cenedlaethol](#) yn lle bendigedig y mae'n bosibl i bawb ei ddefnyddio a'i fwynhau. Mae ganddo foroedd ac arfordir hardd gyda chefn gwlad sy'n llawn bywyd gwylt.

Busnesau newydd

Nid ydyn ni'n meddwl y bydd llawer o adeiladau newydd ar gyfer busnesau. Dyma'r rhesymau pam:



- Nid yw nifer y bobl sy'n byw yn y **Parc Cenedlaethol** yn mynd i fyny



- Does dim llawer o le ar gyfer mwy o safleoedd carafán neu safleoedd gwersylla. Ond efallai ei bod hi'n bosibl gwneud rhai ychydig yn fwy.



- Does dim angen llawer mwy o siopau arnon ni. Mae ein trefi bach yn dda ar gyfer siopa. Mae arnon ni eisiau i fwy o bobl siopa yno i'w cadw ar agor.

Cartrefi newydd



Fe fyddwn ni'n penderfynu a oes angen cartrefi newydd sy'n haws i bobl eu fforddio.

Newid hinsawdd

Bydd gan y [Parc Cenedlaethol](#) rai prosiectau **ynni adnewyddadwy**.



Ynni adnewyddadwy yw gwneud trydan gan ddefnyddio'r haul, dŵr a gwynt.



Mae ar unrhyw adeilad angen bod i ffwrdd oddi wrth fannau ble mae llifogydd yn digwydd.

Trefi a phentrefi



Mae'r rhan fwyaf o dai a swyddi yn y prif drefi. Y prif drefi yn y [Parc Cenedlaethol](#) yw Dinbych y Pysgod, Trefdraeth, Saundersfoot a Thyddewi.



Mae pentrefi llai hefyd ble gallwn adeiladu llai o adeiladau.



Mae'n rhaid i unrhyw adeiladau newydd yn y [Parc Cenedlaethol](#) gyd-fynd yn dda â'r [Parc Cenedlaethol](#).



Bydd y rhan fwyaf o adeiladau newydd mewn cymunedau lleol. Fe fyddan nhw'n helpu'r trefi a'r pentrefi hynny i barhau.

Cefn gwlad



Er, bydd gwahanol bethau yn dal i ddigwydd yng nghefn gwlad yn y [Parc Cenedlaethol](#). Er enghraifft, ffermydd yn gwneud pethau eraill fel gwely a brecwast neu siop fferm.



Mae'r rhan fwyaf o'r [Parc Cenedlaethol](#) yn gefn gwlad felly fydd dim llawer o adeiladau newydd. Mae hyn yn meddwl na fyddwn ni'n gallu cael llawer mwy o bobl yn byw yma.

Gwasanaethau cymunedol



Mae'n bwysig gofalu am leoedd ble mae pethau'n digwydd yn y gymuned, fel ysgolion a chanolfannau iechyd.



Weithiau efallai y bydd ar gymuned angen adeiladau newydd ar gyfer y gwasanaethau hyn. Fe fyddwn ni'n cefnogi hyn a gwneud yn siŵr bod yr adeilad yn cyd-fynd â'r [Parc Cenedlaethol](#).



Twristiaid

Mae twristiaid yn bwysig iawn ar gyfer y [Parc Cenedlaethol](#).



Mae'r lleoedd i dwristiaid aros ynddyn nhw angen bod o safon dda ac angen codi gwahanol brisiau.



Nid oes arnon ni angen llawer mwy o leoedd i dwristiaid aros ynddyn nhw.



Efallai bod ychydig o leoedd ar gyfer carafanau a gwersylla ar rai safleoedd.



Mae arnon ni eisiau ceisio cadw gwestai i dwristiaid gael aros ynddyn nhw.

Cludiant



Mae arnon ni angen gwneud yn siŵr bod gennym ni gludiant cyhoeddus da fydd yn para.

Geiriau Anodd

Cais cynllunio

Mae cais cynllunio yn ffordd o ofyn caniatâd i adeiladu rhywbeth newydd neu ychwanegu rhywbeth at adeilad.

Newid hinsawdd

Newid hinsawdd yw'r ffordd y mae tywydd y Ddaear yn newid.

Parc Cenedlaethol

Mae Parc Cenedlaethol yn ardal sy'n cael ei diogelu oherwydd ei chefn gwlad hardd, ei bywyd gwyllt a'i hanes.

Ynni adnewyddadwy

Ynni adnewyddadwy yw gwneud trydan gan ddefnyddio'r haul, dŵr a gwynt.